

TRAHERNE, JOHN MONTGOMERY, (1788 - 1860), hynafiaethydd enwocaf Sir Forgannwg yn ei ddydd

Enw: John Montgomery Traherne
Dyddiad geni: 1788
Dyddiad marw: 1860
Priod: Charlotte Louisa Traherne (née Talbot)
Rhiant: Llewellyn Traherne
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Henry John Randall

Ganwyd 5 Hydref 1788 yn Coedriglan, gerllaw Caerdydd, mab Llewellyn Traherne, a etifeddasai stad Coedriglan. Ar yr ochr fenywol yr oedd y teulu'n disgyn o Herbertiaid Abertawe; erbyn y 17eg ganrif - ac efallai cyn hynny - yr oedd wedi ymsefydlu yn Castellau gerllaw Llantrisant.

Cafodd J. M. Traherne ei addysg mewn ysgolion preifat cyn ei anfon i Goleg Oriol, Rhydychen, yn 1807; graddiodd yn 1810. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn 1812 ac yn offeiriad yn 1813. Ni bu erioed â gofal plwyf arno, ond o 1844 hyd 1851 yr oedd yn ganghellor esgobaeth Llandaf. Dywed ef ei hunan nad oedd ganddo pan oedd yn efrwydd yn Rhydychen ddim medr yn y clasuron ac iddo felly fynychu dosbarthiadau lle y darlithid ar lysieueg, cemeg, ac anatomi. Fe'i dewiswyd yn gymrawd o'r Royal Society yn 1823, eithr nid oes ond ychydig yn aros i ddangos pa waith gwyddonol a wnaeth ef ei hunan. Yn rhyfedd iawn, a chofio maint ei ddiddordeb mewn hynafiaethau, ni ddaeth yn gymrawd o'r Society of Antiquaries hyd y flwyddyn 1838. Yr oedd yn gyfarwydd â llu o bobl o bwys ym mydoedd gwyddoniaeth a llenyddiaeth; gweler llythyrâu oddi wrth amryw o'i ohebwyr yn **NLW MS 6598D**, **NLW MS 6599C**, **NLW MS 6600E**. Priododd 23 Ebrill 1830 â Charlotte Louisa, trydedd ferch **Thomas Mansel Talbot**, Margam; sylwer iddo astudio llawer ar ddogfennau Margam (yn L.I.G.C. yn awr) a bod i'w wraig hefyd lawer o ddiddordeb mewn hanes a llenyddiaeth. Beth amser cyn ei briodas tynasai Traherne hen dŷ Coedriglan i lawr - tua'r flwyddyn 1823, mae'n debyg - a chodi tŷ newydd yn is i lawr y bryn yn null y 'Regency.'

Gadawodd lu o lyfrau nodiadau ar ei ôl. Cyhoeddodd lawer heb roddi ei enw wrtho neu o dan ffugenw; cynorthwyodd lawer o'i gyfeillion, e.e. **L. W. Dillwyn**, gyda'i *Contributions to the History of Swansea*, Y pethau pwysicaf a gyhoeddodd oedd (a) *Lists of Knights of the Shire for Glamorgan*, 1822; (b) *Historical Notices of Sir Matthew Cradock, Knt. of Swansea, in the Reigns of Henry VII and VIII* (Llandovery, 1840) (gweler **NLW MSS 6522-6524D**); (c) *Stradling Correspondence: A Series of Letters written in the Reign of Queen Elizabeth, with Notices of the Family of St. Donats Castle, Co. Glamorgan* (London, 1840) - yr olaf ydoedd ei waith pwysicaf; gweler **NLW MS 6555B** - **NLW MS 6556E**. Yr oedd iddo ddiddordeb dwfn yn hanes a llenyddiaeth Cymru a gwyddai fwy na neb yn ei oes am hanes Morgannwg; bu un o lawysgrifau **Llywelyn Siôn** o Langewydd (**NLW MS 6511B** yn awr) yn eiddo iddo. Yr oedd ei gasgliad o lyfrau achau yn helaeth; daeth i'w feddiant gyfran helaeth o lawysgrifau **William Davies**, Cringell, hanesydd Morgannwg. Bu farw yng Nghoedriglan 5 Chwefror 1860. Ymddengys i rai o'i lawysgrifau ddyfod yn eiddo ei gyfaill **Syr Thomas Phillipps**, Middle Hill, ac felly fynd i Lyfrgell Dinas Caerdydd; daeth cyfran helaeth iawn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd (o blasty S. Hilary, Sir Forgannwg); am fanylion am y rhai sydd yn L.I.G.C. gweler *N.L.W. Handlist of Manuscripts*, ii, 188-98. Heblaw y cymdeithasau a enwyd eisoes yr oedd Traherne â chyswllt rhyngddo a llu o fudiadau addysgol a diwylliannol yng Nghymru; am enghreifftiau o hyn gweler **NLW MSS 6522-6524D**, **6525-6526E**, **6527F**, **6528E**, **NLW MS 6577E**, **NLW MS 6578E**, **NLW MS 6583F**, **NLW MS 6591E**. Na chymysger ef â hynafiaethydd arall, **G. G. T. Treherne**.

Awdur

Henry John Randall, (1877 - 1964)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

gwymbodaeth gan Mr. C. G. Traherne

Roy Denning, *The Glamorgan Historian*, 4 (1967), 46-55

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q6249221**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Randall, H. J., (1953). TRAHERNE, JOHN MONTGOMERY, (1788 - 1860), hynafiaethydd enwocaf Sir Forgannwg yn ei ddydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-TRAH-MON-1788>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government